OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3306 (Cy.293)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Gwnaed - - - -	*22 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - -	*18 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy (**2**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007 a deuant i rym—

(a) at ddibenion rheoliad 2(3), ar 1 Ionawr 2008; a

(b) at bob diben arall, ar 18 Rhagfyr 2007

Diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru)(Rhif 2)

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) (**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 3, rhodder—

"**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â llwythi—

(a) o blanhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn gyntaf Atodiad V, Rhan B o'r Gyfarwyddeb; a

(b) o hadau *Solanaceae* p'un ai a ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad V, Rhan B o'r Gyfarwyddeb ai peidio,

(**1**) 1973 p. 51.
(**2**) Adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2006/2832 (Cy.253), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/1763 (Cy.153).

sydd wedi'u glanio yng Nghymru o drydedd wlad neu sy'n ddarostyngedig i gytundeb a wnaed o dan erthygl 12(6) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**4**).".

(3) Yn lle Atodlen 2, rhodder—

"ATODLEN 2 Rheoliad 4

FFIOEDD AROLYGU MEWNFORIO (CYFRADDAU GOSTYNGOL)

Genws	*Nifer*	*Gwlad tarddiad*	*Ffi*	*Ffi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)*
Blodau wedi'u torri				
Dianthus	Fesul llwyth			
	— hyd at 20,000 o ran nifer	Colombia	£0.40	£0.60
		Ecuador	£1.98	£2.97
		Twrci	£3.31	£4.96
		Israel	£4.63	£6.95
	— am bob 1,000 o unedau ychwanegol neu ran o hynny	Colombia	£0.003	£0.004
		Ecuador	£0.01	£0.02
		Twrci	£0.02	£0.03
		Israel	£0.03	£0.05
	— uchafbris	Colombia	£3.17	£4.75
		Ecuador	£15.88	£23.83
		Twrci	£26.48	£39.72
		Israel	£37.07	£55.60
Rosa	Fesul llwyth			
	— hyd at 20,000 o ran nifer	Ecuador	£0.40	£0.60
		Colombia, Ethiopia, Kenya	£0.66	£0.99
		Uganda, Zambia	£1.32	£1.98
		Tanzania	£1.98	£2.97
		India, Zimbabwe	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 o unedau ychwanegol neu ran o hynny	Ecuador	£0.003	£0.004

(**4**) O.S. 2006/1643 (Cy.158), y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Genws	*Nifer*	*Gwlad tarddiad*	*Ffi*	*Ffi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)*
		Colombia, Ethiopia, Kenya	£0.005	£0.007
		Uganda, Zambia	£0.01	£0.015
		Tanzania	£0.01	£0.02
		India, Zimbabwe	£0.05	£0.07
	— uchafbris	Ecuador	£3.17	£4.75
		Colombia, Ethiopia, Kenya	£5.29	£7.94
		Uganda, Zambia	£10.59	£15.89
		Tanzania	£15.88	£23.83
		India, Zimbabwe	£52.96	£79.44
Ffrwythau				
Malus	Fesul llwyth			
		Chile	£0.93	£1.39
	— hyd at 25,000 kg o ran pwysau	Seland Newydd, De Affrica	£1.32	£1.98
		Yr Ariannin	£1.98	£2.97
		Brasil, UDA	£3.31	£4.96
		Tsieina	£4.63	£6.95
	— am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Chile	£0.03	£0.05
		Seland Newydd, De Affrica	£0.05	£0.07
		Yr Ariannin	£0.07	£0.11
		Brasil, UDA	£0.13	£0.19
		Tsieina	£0.18	£0.27
Mangifera	Fesul llwyth			
	— hyd at 25,000 kg o ran pwysau	Brasil	£0.66	£0.99
		Periw	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Brasil	£0.02	£0.03
		Periw	£0.26	£0.39
Prunus	Fesul llwyth			